

## CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r:** Cyngor

**Dyddiad y cyfarfod:**

**Teitl:** Cyflwyno Taliad Atodol ar sail Grymoedd y Farchnad – Recriwtio Prif Swyddogion

**Pwrpas yr adroddiad:** Cyflwyno Taliad Atodol ar sail Grymoedd y Farchnad ar gyfer Rolau Prif Swyddogion sy'n anodd eu llenwi

**Er:** Penderfyniad

**Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet:** Y Cyngorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Democrataidd, Polisi a Pherfformiad, Pobl a Threfniadaeth

### Cefndir

Mae swydd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal yn wag ar hyn o bryd gyda chyfrifoldebau'r rôl yn cael eu cyflawni o dan drefniant asiantaeth. Dim ond nifer fach iawn o geisiadau y mae ymgyrch recriwtio ddiweddar wedi'u denu ac o ganlyniad penderfynodd y Pwyllgor Llunio Rhestr Fer ail-hysbysebu'r rôl gyda'r bwriad o ddenu rhagor o ymgeiswyr â chymwysterau addas.

Mae'r dirwedd recriwtio heriol ar draws y dirwedd gofal cymdeithasol yn lleol ac yn genedlaethol wedi'i chrybwyll yn eang.

Am y flwyddyn gyfredol, uchafswm cyflog rôl Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal yw £87,115 ond o gymharu â'n cymdogion rhanbarthol mae hyn yn sylweddol is na rolau cyfatebol sydd â chylch gorchwyl Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. Cydnabyddir ei bod yn anodd gwneud cymariaethau tebyg am debyg oherwydd bod y cyfrifoldebau o dan bob swydd yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. O safbwynt recriwtio fodd bynnag mae'n berthnasol gan y bydd yn ystyriaeth i ddarpar ymgeiswyr. Yng Ngwynedd y cyflog yw £104,288; ym Mhowys mae'n £115,847; yn Sir Benfro mae'n £128,254; ac yn Sir Gaerfyrddin mae'n £135,621.

O ran awdurdodau lleol o boblogaeth debyg i Geredigion, mae deiliad swydd cylch gwaith Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael uchafswm cyflog o £85,486 ym Mlaenau Gwent; £91,341 yn Sir Fynwy; £92,345 yn Ynys Môn; a £96,150 yn Nhorfaen;

### Cynnig

Er mwyn gwneud y cyflog yn fwy deniadol i ddarpar ymgeiswyr, cynigir bod Taliad Atodol ar sail Grymoedd y Farchnad yn cael ei gyflwyno i gynyddu'r cyflog a hysbysebir ar ystod uwch nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Defnyddir taliad atodol ar sail grymoedd y farchnad fel arf recriwtio neu gadw lle mae bwlch mewn sgiliau yn y farchnad swyddi, yn lleol neu'n genedlaethol, neu oherwydd bod cyfradd y

farchnad ar gyfer set sgiliau benodol yn uwch na'r hyn a bennir gan ein strwythur gwerthuso swyddi a graddio cyflogau. Yn y sefyllfa hon mae'r ddau ddatganiad hyn yn berthnasol.

Mae Polisi Cyflogau'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw daliad atodol ar sail grymoedd y farchnad a delir i rôl Prif Swyddog gael ei gymeradwyo gan y Cyngor. Y cynnig yw cynnwys taliad atodol ar sail grymoedd y farchnad o hyd at £10,385, yn ychwanegol at y raddfa gyflog a werthuswyd ar gyfer y swydd ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Ar gyfer y broses recriwtio hon, bydd hyn yn arwain at uchafswm cyflog a thaliad atodol a hysbysebair o £97,500.

Nid yw taliad atodol ar sail grymoedd y farchnad yn contractiol ond byddai disgwyl iddo aros yn ei le cyhyd â bod cyfradd y farchnad yn parhau i fod yn uwch na lefel y cyflog a werthuswyd ar gyfer y swydd.

	<b>A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam</b>	Nac oes. Nid yw cyflwyno'r lwfansau hyn yn newid polisi na darpariaeth gwasanaethau.
<b>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</b>	<b>Crynodeb: Hirdymor: Cydweithio: Cynnwys: Atal: Integreiddio:</b>	
<b>Argymhelliad:</b>		Cymeradwyo cyflwyno taliad atodol ar sail grymoedd y farchnad ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal.
<b>Rheswm dros y penderfyniad:</b>	y	Denu ymgeiswyr â chymwysterau addas i swydd wag Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal.
<b>Trosolwg a Chraffu Fframwaith Polisi:</b>		Heb ei ystyried Polisi Cyflogau
<b>Amcanion Llesiant Corfforaethol:</b>		Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach Rhoi'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Galluogi Dysgu ym mhob Oed
<b>Goblygiadau Cyllid a Chaffael: Goblygiadau Cyfreithiol:</b>		I'w cwrdd o fewn cyllideb y Gwasanaeth  Mae adran 144 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor benodi swyddog, a elwir yn gyfarwyddwr gwasanaethau

cymdeithasol, at ddibenion ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

**Goblygiadau staffio:** Fel rôl statudol, bydd methiant i benodi yn cael effaith ar strwythur arweinyddiaeth y Gwasanaeth a'r Cyngor.

**Goblygiadau eiddo / asedau:** Dim

**Risg(iau):** Bydd methu â recriwtio i'r rôl statudol hon yn debygol o arwain at ymyrraeth gan y corff rheoleiddio perthnasol.

**Pwerau Statudol:**

**Papurau Cefndir:**

**Atodiadau:**

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth

**Swyddog Adrodd:** Geraint Edwards

**Dyddiad:** 19/02/2023